

Cynulleidfa: Uwch Dîm Arweinyddiaeth GwE**BRIFF**

Ymchwilio i'r defnydd o'r GAD (Grant Amddifadedd Disgyblion) a'r prosesau a'r strategaethau a ddefnyddir i gefnogi disgyblion hPYD (hawli brydau ysgol am ddim) mewn ysgolion uwchradd yn rhanbarth GwE

Amcanion

- Adnabod yr arferion gorau ynghylch sut mae'r defnydd o'r GAD wedi cyfrannu at lwyddiant cyfran helaeth o ddisgyblion hBYDD i gyflawni'r L2+
- Canfod yr heriau a wynebwr wrth godi cyrhaeddiad y grŵp hwn o ddisgyblion
- Cael dealltwriaeth eglur o sut y mae'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw'n defnyddio prosesau, strategaethau ac adnoddau a ariennir gan eu GAD
- Deall sut yr arolygir ac y gwerthusir y dosraniad cyllido gan dîm arweinyddiaeth uwch yr ysgolion a'u corff llywodraethol
- Ystyried gwersi a ddysgwyd a sut y bydd hyn yn dylanwadu ar gynllunio ar gyfer defnyddio'r grant yn y dyfodol.

Canlyniad

Argymhellion ar gyfer yr ysgolion a GwE ynghylch y camau nesaf tuag at gynydd cynaliadwy ar gyfer disgyblion PYD.

Sylwer Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y targedau gwaelodol canlynol ar gyfer disgyblion hBYDD ar Lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg:- **2016 : 32%, 2017 : 34%**

Cefndir

Ymwelwyd â phedair ysgol ar ddeg yng nghonsortium GwE er mwyn ymchwilio i'r ffyrdd y defnyddir y GAD er budd cyrhaeddiad y disgyblion hPYD, yn enwedig ar Lefel 2, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg. Bu i brifathrawon yr ysgolion hynny:

- werthuso canlyniadau eu disgyblion hPYD, gan ganolbwyntio ar eu canlyniadau 2014-15
- adolygu effaith eu rhaglen ymyriadau a dynodi adnoddau o'u GAD yn 2014-15
- dfod eu cynlluniau GAD ar gyfer 2015-16 a'u sail resymegol ar gyfer ei ddosbarthiad.

Bu i bob pennaeth gydweithredu'n llwyr â'r ymchwil, gan ddangos eu hymroddiad i'r egwyddor o ymagwedd ysgol-gyfan at fynd i'r afael ag anfantais a thargedau disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Pwysleisiodd holl benaethiaid yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw pa mor hanfodol yw'r GAD wrth gefnogi ysgolion i dorri'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel. Yr oeddent yn dymuno rhannu strategaethau fu'n llwyddiannus yn eu hysgolion hwy'u hunain, adnabod y rhai na fuont mor llwyddiannus ag y bwriadasant, ac ystyried arferion gorau o ysgolion eraill sydd yn gynaliadwy yn y tymor byr a'r hir fel ei gilydd.

Yn yr holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw, cydnabyddir nad yw'r meini prawf cymhwyso ar gyfer y GAD yn darparu ar gyfer pob disgybl difreintiedig neu'r rhai o ardaloedd o amddifadedd. Mae ar y grŵp hwn o ddisgyblion hefyd angen ei adnabod a rhoi iddynt gefnogaeth ychwanegol i'w galluogi i ffynnu a llwyddo. Cryfder neilltuol un ysgol yw ei harddull 'Ever 6' sydd yn olrhain ac yn ariannu disgyblion a fuont, ar unrhyw adeg yn ystod eu gyrfa ysgol, â hPYD.

Mewn rhai ysgolion yr ymwelwyd â nhw yr oedd cryn gyfnewidioldeb o ran niferoedd a disgyblion unigol, gyda'r ysgolion hyn yn gweld lleihad yn y niferoedd yn hawlio PYD wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol. Mewn un ysgol, â phoblogaeth fyrarhosol iawn, nid oedd agos hanner y disgyblion fu'n hawlio PYDd ym mlwyddyn 7 yn gwymwys, bellach, ym mlwyddyn 11. Yn ychwanegol, lle'r oedd y niferoedd a gofrestrwyd ar gyfer PYD yn gyson, yr oedd y disgyblion eu hunain yn amrywio.

Lle'r oedd niferoedd y disgyblion hPYD yn isel, pwylseisiodd y penaethiaid arwyddocâd canlyniad disgyblion hPYD unigol megis cyfran o'r cyfan. Cyfeiriodd y penaethiaid hyn at her yr amrywiaeth perfformiad o'r naill flwyddyn i'r llall, gan ddibynu ar broffil gallu a photensial yr unigolion hynny.

Lle'r oedd niferoedd disgyblion hPYD yn uwch, ni phwysolwyd pob unigolyn yn gymesur; ond yr oedd penaethiaid yr ysgolion hynny hefyd yn wynebu amrywiad yn y grŵp ac, yn ychwanegol, o'r farn fod poblogaeth gyfan yr ysgol yn fwy o her. Mewn ysgolion ag unedau adnodd cysylltiedig, a chyda chyfran uwch o ddisgyblion ADY (anghenion dysgu ychwanegol) a hPYD, yr oedd her cyrraedd y trothwy Lefel 2+ yn cynyddu'n sylweddol. Nid amddifadedd oedd yr unig rwystr i gynnydd a chyrhaeddiad, felly.

Cyd-destun

Amrywiai'r arian ar gyfer y GAD yn yr ysgolion hyn yn 2014-15 o £131,000 i £62,000 ac ar gyfer 2015-16 o £139,650 i £67,200.

Amrywai cyfran yr ysgolion o ddisgyblion hBYDd (cyfartaledd 3 blynedd) o 10.8% i 25.6%.

Amrywai'r bwlch cyrraeddiad rhwng hPYD a dim hPYD (cyfartaledd 3 blynedd) ar Lefel 2+ o 21.4% i 46.6%.

Yn y cohort blwyddyn 11 o 2014-15 yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, amrywai'r gyfran disgyblion hBYDd o 11.5% i 25.6%, a nifer y disgyblion unigol o 9 i 41.

Yn bron pob un ysgol, yr oedd cyfran disgyblion hPYD y cohort yn sefydlog o'r naill flwyddyn i'r llall. Mewn ychydig ohonynt, yr oedd amrywiaeth eang gyda chymaint â 15% o wahaniaeth o'r naill flwyddyn i'r llall.

Perfformiad a chanlyniadau

Yn hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, yr oedd amrywiaeth ym mherfformiad hPYD ar gyfer y dangosydd Lefel 2+ o'r flwyddyn flaenorol yn cyfateb â dangosydd y cohort cyfan. Mewn achosion o ganlyniadau is na'r disgwyl ar gyfer disgyblion hPYD, priodolwyd hyn i waeth canlyniadau mewn Cymraeg/Saesneg neu Fathemateg ledled y grŵp blwyddyn. Yr oedd llawer o ddisgyblion hPYD wedi ennill gradd C mewn naill ai Mathemateg neu Gymraeg/Saesneg, ond nid y ddau bwnc.

Yn hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, yr oedd y canlyniadau Lefel 2+ yn 2015 ar gyfer disgyblion hPYD yn debyg iawn i ddisgwyliadau'r ysgol ar gyfer y disgyblion hynny. Cyfeiriodd prifathrawon at her amryw fannau cychwyn ar gyfer y disgyblion hyn. Roedd y rheiny'n cynnwys gallu gwael; mynychwyr gwael neu wael iawn (weithiau'n cynnwys disgyblion sy'n gwrthod mynd i ysgol); trosglwyddo o ysgolion eraill ar ganol y flwyddyn (ym mlynedd 10 ac 11, mewn rhai achosion), a bod ar y gofrestr ADY a/neu PMG (plant mewn gofal). Ym marn yr holl benaethiaid, er na ddylid ystyried bod proffilau o'r fath yn cyfiawnhau perfformiad gwael ar at Lefel 2+, y mae'n anodd i bob disgybl gyflawni'r mesur penodol hwnnw. Yr oedd llawer o ddisgyblion hPYD, fodd bynnag, wedi dod yn eu blaenau'n dda yn yr ysgol. Yr oeddent wedi cael canlyniadau da yn nangosyddion eraill CA4 ar Lefel 1 a Lefel 2, ond nid wastad mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg.

Ethos ac Arweinyddiaeth Ysgolion

Mae swyddogaeth uwch-arweinwyr mewn cynllunio, gweithredu ac adolygu'n ganolog i ganlyniadau llwyddiannus ar gyfer disgyblion hPYD. Gall ansawdd yr adolygu a'r gwerthuso amrywio, fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ysgolion mwy llwyddiannus.

Mewn ysgolion llwyddiannus, mae cyfarfodydd uwch-arweinwyr, yn aml wedi'u hariannu gan y GAD, yn ddigwyddiad rheolaidd er mwyn trafod llwyddiant disgyblion hPYD a chefnogaeth ar eu cyfer. Hyd yn oed mewn ysgolion ag ychydig o ddisgyblion hPYD, mae cyfarfodydd ar lefel uchel eto'n gaffaeliad. Mae graddfa eang yr wybodaeth, y cefndir a'r anghenion yn arwain at greu cynlluniau unigol priodol ar gyfer y disgyblion hyn. Targedir pob disgybl hPYD, gan gynnwys disgyblion Cyfnod Allweddol 3, er mwyn osgoi gorfod bod ag 'ethos dal i fyny' yng Nghyfnod Allweddol 4.

Ni ddarperir ar gyfer methiant yn yr ysgolion hyn. Mae yna gefnogaeth eglur ar gyfer pob disgybl, yn aml â thystiolaeth am ymyriadau ysbrydoledig. Mewn ysgolion lle bo niferoedd hPYD yn neilltuoel uchel (15%-25%), defnyddir arddull "tîm cyfan", gydag arweinwyr a staff ar bob lefel yn cymryd rhan, a chydychynrychiolaeth o'r adran fathemateg, Cymraeg a Saesneg. Mae dosbarthiad cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn yr ysgolion hyn yn arbennig o drawiadol.

Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, rhennir y cyfrifoldeb am ddisgyblion hPYD rhwng aelodau'r UDRh. Mewn ychydig o ysgolion, mae gan unigolyn gyfrifoldeb penodol am y grŵp hwn o ddisgyblion. Mae hwn neu hon weithiau'n aelod o'r UDRh, sydd â swyddogaeth strategol neilltuoel ar gyfer gwella'r canlyniadau ar gyfer disgyblion hPYD. Mewn un ysgol, mae'r pennaeth wedi arwain er mwyn sicrhau gwella pob arfer a gweithredu er mwyn esgor ar ganlyniadau. Mewn un arall, dynodwyd hyrwyddwr hPYD er mwyn amlygu'r disgyblion hPYD, achub pob cyfle i gadw golwg ar eu cynnydd, a chydgordio'r strategaethau ysgol-gyfan ac adrannol. Mae'r hyrwyddwr hwn hefyd yn gyfrifol am hysbysu'r corff llywodraethol.

Y corff llywodraethol

Hysbysir llywodraethwyr yn gyson ynghylch y dosraniad a'r dosbarthiad GAD (a GGA (Grant Gwella Addysg)) yn gyffredinol trwy Bwyllgorau Cyllid. Mae arfer dda'n cynnwys bod y rheolwr busnes yn cyflwyno adroddiad neilltuol yn y datganiad cyllideb, fel y gellir cadw golwg ar y gwariant ac y gellir gwerthuso'r gwerth am arian parthed effaith y gwariant. Ychydig o ysgolion sydd â llywodraethwr dynodedig ar gyfer y swyddogaeth hon.

Olrhain Disgyblion, Targedau a Dadansoddiadau Data

Mae'r systemau gosod targedau ac olrhain cynnydd disgyblion hPYD yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus yr ymwelwyd â nhw yn drwyadl ac yn gyson, ac yn arwain yn uniongyrchol at ymyriadau, sydd yn effeithiol. Mae llawer o'r ysgolion wedi adolygu ansawdd ac effeithiolrwydd eu holrhain o'r grŵp hwn ar raddfa strategol gan arweinydd canol. Sicrhânt fod eu systemau'n treiddio i lawr, fel y gall yr holl staff wybod pwy yw eu disgyblion hPYD, ac olrhain a rhoi gwybod am eu cynnydd mewn modd rheolaidd ac effeithlon.

Mae cohortau unigol yn amrywio'n sylweddol o ran niferoedd a chyrhaeddiad blaenorol; mae rhai ysgolion llwyddiannus iawn wedi gosod targedau sylweddol is ar gyfer eu disgyblion hPYD yn y flwyddyn ganlynol. Nid yw'r penaethiaid yma am i hyn gael ei ddehongli fel arwydd o gwmp mewn safonau, ond yn hytrach fel arwydd o ba mor dda y maent yn adnabod eu disgyblion a'u gallu.

Mae penaethiaid yn pwysleisio sut mae swyddogaeth rheolwr data wedi dod yn gynyddol bwysicach. Mae'r rheolwr data yn aml yn Bennaeth Cynorthwyol, wedi'i gefnogi gan gynorthwywr gweinyddol. Mewn un ysgol, mae system hyblyg ar gyfer olrhain disgyblion wedi'u cyfuno yn ôl eu cynnydd mewn Cymraeg/Saesneg neu Fathemateg yn amlygu disgyblion hPYD, fel y gŵyr uwch-arweinyddion yn union sut y mae'r grŵp hwn yn perfformio, ac a ydynt am daro'r nod ai peidio.

Mae llawer o benaethiaid wedi dadansoddi perfformiad eu disgyblion hPYD blwyddyn 11 yn 2014-15. Maent wedi cynhyrchu proffil manwl o hanes y disgyblion hyn gydol yr ysgol, gan gynnwys data sylfaenol, olrhain eu cynnydd a gwerthuso'r ymyriadau a weithredwyd er mwyn gwella eu canlyniadau. Mae'r ymyriadau hyn yn cynnwys tiwtora unigol neu mewn grwpiau bychain a/neu fentora, cefnogaeth fugeiliol ychwanegol o fewn yr ysgol, a chysylltu ag asiantaethau allanol, rhai ohonynt a ariennir yn uniongyrchol trwy'r GAD. Yn rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arian GAD ychwanegol wedi'i gyfeirio'n llwyddiannus at wella presenoldeb disgyblion hPYD, yn ogystal a'u perfformiad yn y dangosydd L1 a L2. Mae'r gwerthuso hwn ar berfformiad a hanes y cohort blaenorol yn dylanwadu ar gynllunio a rhaglenni ar gyfer disgyblion hPYD presennol, fel y gellir defnyddio adnoddau ac arfer yn fwy effeithlon.

Mewn un ysgol, lle mae safonau ar gyfer disgyblion hPYD wedi codi'n sylweddol, bu i uwch-arweinwyr osod targedau ar gyfer disgyblion hPYD ym mhob un grŵp blwyddyn. Cedwir golwg parhaus ar y disgyblion hPYD hynny, gan gynnwys ar raddfa tiwtor. Mae arsylwadau gwers, er enghraifft, yn cynnwys cyfeiriadau at safonau'r disgyblion hPYD. Mae craffu llyfrau'n cynnwys gwaith disgyblion hBYDd megis grŵp ffocws er mwyn sicrhau eu bod yn cynyddu digon tuag at gyrraedd eu targedau.

Mae hanner yr ysgolion, yn olrhain presenoldeb, ymddygiad a gwaharddiadau disgyblion hPYD, fel y gellir canfod patrymau a gweithredu fel y bo'n addas. Mewn un ysgol, cynhyrchir graffiau preseonoldeb ar gyfer y grŵp hwn pob bythefnos, a gall mentoriaid dysgu newydd eu penodi ar gyfer 2015-16 fynd i'r afael yn gyflym ag unrhyw bryderon.

Cynyddu Cynhwysedd a Datblygiad Staff

Mae'r holl ysgolion yn cytuno mai ansawdd y dysgu a'r addysgu dydd-i-ddydd yw'r ffactor unigol sy'n cyfrannu fwyaf at godi safonau'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai â hPYD. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio agwedd ar y cymhorthdal GAD ar gyfer datblygu a hyfforddi staff, ac yn pwysleisio ei werth. O'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, cryfder neilltuol y rhai hynny sydd â disgyblion hBYDd sy'n perfformio'n dda yw eu gweledigaeth wrth ganfod arweinwyr ymysg y staff a'u datblygu i ymgymryd â her cau'r bwlch. Mae rheolwyr dysgu, bugeiliol ac arweinwyr adrannol yn aml yn rhan hanfodol o benderfyniadau a chyfeiriad strategol; a hwylusir hyn gan aelodaeth tros-dro o dimau arwain neu gan secondiadau.

Staff cynorthwyol

Mewn llawer o ysgolion, cyflogwyd staff cynorthwyol ychwanegol nad ydynt yn dysgu, gan dalu amdanynt yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r GAD. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y math yma o ddarpariaeth. Mae mwyafrif yr ysgolion yn defnyddio staff fu â swyddogaeth arall o fewn yr ysgol, er bod rhai wedi penodi staff newydd yn benodol ar gyfer canolbwyntio ar y disgyblion hPYD. Mae enghreifftiau rhagorol o staff, yn aml ar gytundebau tymor byr trwy grant, sy'n cyfrannu'n sylweddol at allu a medr arbenigol yr ysgol. Mae'r gweithwyr hyn yn aml yn byw yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae swyddogaethau staff cefnogol yn cynnwys swyddog cyswllt teuluol / cefnogaeth i rieni, cynorthwywr cefnogaeth fugeiliol a hyfforddwyr/mentoriaid dysgu. Mae union natur eu swyddogaethau yn amrywio o'r naill ysgol i'r llall, ac o ganolbwyntio ar ddysgwyr unigol i ymgysylltu'n ehangach â theuluoedd.

Mae penaethiaid o'r farn y gall fod yn anodd cloriannu effeithiolrwydd staff unigol yn y swyddogaeth hon, gan fod llawer o ffactorau'n dylanwadu ar les a chydnerthedd disgyblion, a disgyblion hPYD yn neilltuol. Mae'r holl benaethiaid, fodd bynnag, yn gytûn fod effaith yr aelod staff ychwanegol yn dibynnu llawer iawn ar gymhwysedd a rhinweddau'r unigolyn hwnnw. Lle bo staff cefnogol yn effeithiol, fe'u gwerthfawrogir yn fawr.

Yn yr ysgolion lle bo gwella presenoldeb yn flaenoriaeth ar gyfer y grŵp targed, defnyddwyd y GAD yn aml ar gyfer amser ychwanegol gan swyddog preseonoldeb. Mae rhai prifathrawon o'r farn fod swyddogaeth y gweithiwr cymdeithasol addysgol, wedi'i gyflogi gan yr awdurdod lleol, wedi'i gwanychu fwyfwy oherwydd cyfyngiadau cyllido sydd, yn anochel, yn lleihau effaith y ddarpariaeth hon. Gan hynny, mae rhai ysgolion yn defnyddio'u cymhorthdal i gyfoethogi'r ddarpariaeth hon ar raddfa'r ysgol unigol. Mewn un ysgol, mae strategaethau ysgol-gyfan llwyddiannus ar gyfer gwella presenoldeb ac ymddygiad hefyd wedi arwain at wellhad ar gyfer disgyblion hBYDd.

Yn nhua hanner yr ysgolion, defnyddir arian GAD i gyflogi cefnogaeth ddysgu ychwanegol, yn bennaf ar gyfer mathemateg a Cymraeg/Saesneg ac, mewn rhai achosion, llythrennedd. Mewn un ysgol, cyflogir athro mathemateg rhan-amser i weithio gyda grwpiau eithrio bychain; ac mewn un arall, mae Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch sy'n arbenigo mewn mathemateg yn ymgymryd â'r swyddogaeth honno. Mewn un ysgol, mae grwpiau cynyddu cyflawniad mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg penodol, sy'n cynnwys disgyblion hPYD. Mewn ysgol arall, bu'r athro'n cynnal clwb amser cinio llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar wella llythrennedd disgyblion.

Mewn ysgolion eraill, defnyddiwyd y GAD i brynu amser cwricwlwm ychwanegol er mwyn caniatáu i diwtoriaid dosbarth fentora eu disgyblion ar raglen dreigl. Mae'r holl ddisgyblion yn cael budd, ond mae canolbwyntio neilltuol ar ddisgyblion hPYD.

Rhaglenni ymyrryd

Mae'r holl ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi cyflwyno amryw ymyriadau, wedi'u hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan y GAD, er mwyn cefnogi disgyblion hPYD. Mae'r rhain yn cynnwys (nid mewn unrhyw drefn neilltuol):-

- Cefnogaeth ychwanegol mewn pynciau craidd (ceir trafferth penodi staff ymyrryd o safon uchel, fodd bynnag, yn enwedig ym mathemateg a Cymraeg/Saesneg)
- Penodi staff newydd, gan gynnwys dysgu, cefnogi, swyddog ymgysylltu teuluol, mynychiad
- Mentorwyr a hyfforddwyr dysgu personol
- Clwb brecwast
- Sesiynau twymo mathemateg / Cymraeg / Saesneg yn ystod cofrestru
- Adolygu cyn arholiadau
- Deunyddiau adolygu ar gyfer disgyblion hPYD, yn neilltuol ar gyfer mathemateg
- Diwrnodau ysgogi
- Gweithgareddau y tu allan i'r cwricwlwm
- Siop addysgiadol yn yr ysgol ar gyfer yr holl ddisgyblion: mae gan ddisgyblion hPYD agwedd 'prynu oddi ar y silff'
- Nosweithiau oriau gwyll a hyfforddiant mewn swydd ar gyfer dysgu ac addysgu materion emosïynol ac ymddygiadol
- Cymorthdaliadau ar gyfer arweinwyr y dyfodol er mwyn sbarduno newid a gwellhad
- Ariannu diwrnodau pontio
- Gweithio â theuluoedd ac ar draws cyfnodau
- Gwasanaeth tecstio rhieni er mwyn cefnogi mynychiad ac ymgysylltiad
- Clybiau wedi'r ysgol / gwyliau, gan gynnwys costau trafndiaeth

Er yr ailadroddir y rhestr uchod, debyg, yn y mwyafrif o ysgolion, mae ansawdd ac effaith yr ymyriadau hyn agos wastad wedi'u cysylltu ag ansawdd yr arweinyddiaeth a'r unigolion hynny sy'n arwain ac yn rheoli'r newid. Mae ansawdd, yn hytrach na maint, yn thema sydd i'w weld dro ar ôl tro yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus. Heb y buddsoddi mewn cynllunio strategol ac arweinyddiaeth, nid yw'r ymyriadau uchod wastad yn gwneud gwahaniaeth sylweddol.

Argymhellion ar gyfer ysgolion

- Sicrhau bod uwch-arweinwyr a llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i gynnydd a pherfformiad disgyblion hBYDd a dosbarthiad ac effaith y GAD er mwyn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad
- Parhau i ddefnyddio arian y grant i gynyddu gallu a gyrru datblygiad a hyfforddiant staff
- Cynnwys ymarferwyr arweiniol, yn enwedig ym mathemateg, Cymraeg a Saesneg, yng nghynllunio strategol a phenderfynu
- Gwerthuso effeithiolrwydd y GAD o flynyddoedd blaenorol, er mwyn llywio cynlluniau gwario'r dyfodol
- Gosod targedau a defnyddio trefn olrhain ar gyfer disgyblion hBYDd o flwyddyn 7 ymlaen
- Cynnwys systemau adnabod a chefnogaeth ar gyfer disgyblion difreintiedig y gall nad ydynt â hBYDd, ond sydd eto ag angen ymyrraeth er mwyn cyflawni
- Buddsoddi mewn rhaglenni ymyrryd safonol sy'n esgor ar y canlyniadau gorau yng ngyddestun yr ysgol benodol: nid yw'r un rhaglen yn addas ym mhob achos
- Defnyddio amryw raglenni ymyrryd, â chanlyniadau cyflawni academiaidd eglur yn ogystal â chefnogaeth fugeiliol, a gwerthuso effaith y rhaglenni hynny ar ganlyniadau disgyblion
- Dosrannu addysgu Cymraeg/Saesneg a mathemateg ychwanegol ar gyfer disgyblion hBYDd y mae perygl iddynt dangyflawni
- Lleoli, hyfforddi ac adolygu'n effeithiol y staff hynny sy'n gyfrifol am gefnogi disgyblion hBYDd
- Gwellu presenoldeb disgyblion hBYDd
- Gweithredu er mwyn hyrwyddo sesiynau allgwricwlar ac adolygu ar gyfer disgyblion hBYDd
- Creu partneriaethau â theuluoedd er mwyn lleihau effaith anfantais

Argymhellion ar gyfer GwE

- Cynnwys targedau ar gyfer disgyblion hBYDd fel rhan o'r cynllun GAD; ar Lefel 1, Lefel 2 yn ogystal â Lefel 2+
- Cefnogi ysgolion i werthuso perfformiad eu disgyblion hBYDd ac effeithiolrwydd eu gwariant GAD, gan gynnwys swyddogaeth staff cymorth nad ydynt yn addysgu a'u hamryw swyddogaethau wrth gefnogi disgyblion hBYDd
- Cyflwyno rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus pwrpasol ar gyfer y staff cymorth hyn, i gynnwys rhannu'r arfer mwyaf effeithiol
- Adolygu effaith rhaglenni ymyrryd ar gyfer Cymraeg/Saesneg a mathemateg, a rhannu'r arferion gorau
- Lle bo disgyblion hBYDd wedi tanberfformio yn y ddwy neu dair blynedd diwethaf, cynnwys elfen ychwanegol yn Ymweliad Gwanwyn y consortiwm er mwyn olrhain cynnydd yn erbyn targedau a osodwyd ar gyfer y disgyblion hBYDd ym mlwyddyn 11
- Creu cyfleoedd i arweinwyr ysgolion geisio'r arfer gorau o ysgolion yn yr ardal sydd â phroffil hBYDd neu amddifadedd tebyg. (Mae astudiaethau achos arfer gorau a rhestrau rhaglenni ymyrryd yn fwy effeithiol o'u gosod yng nghyd-destun yr ysgol unigol)

Casgliad

- Mae'r GAD yn hanfodol ar gyfer parhad gwelliant disgyblion hBYDd
- Mae penaethiaid yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi ymroi i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion hBYDd a disgyblion nid-PYDd: ond y mae Lefel 2+ yn fesur cyfyng yn y cyd-destun hwn
- Ym mhob ysgol, y mae arfer da ac arloesol i'w weld i raddau mwy neu lai
- Er bod gan pob ysgol ei heriau unigryw ei hun, gall rhannu strategaethau a weithredwyd gan ysgolion unigol fod o fudd i'r holl ysgolion
- Nid yw'r un strategaeth unigol yn darparu'r ateb i gau'r bwlch hBYDd; ond gall y cyfuniad cywir o strategaethau, wedi'u cyflawni gan unigolion hyfforddedig, da eu hansawdd, fod yn llwyddiannus
- Mae cynllunio strategol, arweinyddiaeth gref ac atebolrwydd ar bob lefel yn hanfodol er mwyn codi safonau ar gyfer disgyblion hBYDd